**PRESS RELEASE: Wednesday 02 November 2022**

**Community drop-in event in the Cambrian Mountains to discuss local interest in heritage tourism development**

Individuals, community groups and businesses from the Cambrian Mountains are warmly invited to attend the upcoming drop-in session organised by the CUPHAT (Coastal Uplands: Heritage and Tourism) project in the Cambrian Mountains. It will take place in Canolfan Cymunedol Mynach Community Centre, Pontarfynach, Devil's Bridge, on Friday 11 November 2022 from 11 am – 1 pm.

CUPHAT, supported by the European Regional Development Fund through the Ireland-Wales Cooperation programme, focuses on sustainable and regenerative heritage-based tourism in the coastal uplands of Ireland and Wales. The project seeks to showcase the shared and distinctive heritages of the Cambrian Mountains and Preseli Mountains, and the Blackstairs Mountains and Wicklow Mountains in Ireland. This event will offer local communities an opportunity to learn more about CUPHAT and share their views about heritage tourism development in their local areas. The CUPHAT project team will provide a short introduction to the project before opening the discussion to hear local views about the potential of developing businesses linked to local heritage, important local sites for tourists and the type of tourism development that would best support local communities.

The project lead, Professor Rhys Jones (Aberystwyth University), describes CUPHAT as "an innovative project directly involving all members of local communities and stakeholders in collaboration so that CUPHAT can 1) develop locally appropriate tourist activities that support rural economic development, 2) help address some of the challenges facing coastal upland communities, and 3) ensure that the kind of tourism promoted by the project is not just sustainable but also actively beneficial to the region."

"We invite anybody who is interested to come along and find out more, meet with us and share their ideas. We want to learn from local communities about aspects of the cultural and natural heritage of the Cambrian Mountains that are most significant and meaningful to them and that could be better showcased to a tourist audience."

To find out more about the CUPHAT Project, all are welcome to attend the events next week. They are free to attend, and tea and coffee will be provided.



**ENDS**

**Further information**

**Coastal Uplands: Heritage and Tourism (CUPHAT)** is funded by the European Regional Development Fund (ERDF) through the Ireland Wales Co-operation Programme. The project will work with a range of community, local and national stakeholders from Wales and Ireland, with Aberystwyth University leading the project, and working in partnership with University College Dublin and the Dyfed Archaeological Trust. The project aims to showcase the natural and cultural heritage of four coastal upland areas in Ireland (Wicklow and Blackstairs Mountains) and Wales (Cambrian and Preseli Mountains) to increase sustainable forms of tourism within them, thus leading to the creation of more sustainable livelihoods, communities and environments.

https://cuphat.aber.ac.uk/ | cuphat@aber.ac.uk | @CUP_HAT_ | @CoastalUplands

**DATGANIAD I'R WASG: Dydd Mercher 02 Tachwedd 2022**

**Digwyddiad galw heibio cymunedol ym Mynyddoedd Cambria i drafod diddordeb lleol mewn datblygu twristiaeth treftadaeth**

Mae croeso cynnes i unigolion, grwpiau cymunedol a busnesau o Fynyddoedd Cambria ddod i'r sesiwn galw heibio a drefnir gan brosiect CUPHAT (Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth) ym Mynyddoedd Cambria. Fe'i cynhelir yng Nghanolfan Gymunedol Mynach, Pontarfynach, ddydd Gwener 11 Tachwedd 2022 o 11yb – 1yh.

Mae CUPHAT, a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy raglen Cydweithredu Iwerddon-Cymru, yn canolbwyntio ar dwristiaeth gynaliadwy ac adfywiol sy'n seiliedig ar dreftadaeth yn ucheldiroedd arfordirol Iwerddon a Chymru. Mae'r prosiect yn ceisio arddangos treftadaeth nodweddiadol sy'n gyffredin rhwng Mynyddoedd Cambria a Mynyddoedd y Preseli, a Mynyddoedd Blackstairs a Mynyddoedd Wicklow yn Iwerddon.

Bydd y digwyddiad hwn yn cynnig cyfle i gymunedau lleol ddysgu mwy am CUPHAT a rhannu eu barn am ddatblygiad twristiaeth treftadaeth yn eu hardaloedd lleol. Bydd tîm prosiect CUPHAT yn rhoi cyflwyniad byr i'r prosiect cyn agor y drafodaeth i glywed barn leol am botensial datblygu busnesau sy'n gysylltiedig â threftadaeth leol, safleoedd lleol pwysig i dwristiaid a'r math o ddatblygiad twristiaeth a fyddai'n cefnogi cymunedau lleol orau.

Mae'r arweinydd prosiect, Yr Athro Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth), yn disgrifio CUPHAT fel "prosiect arloesol sy'n cynnwys holl aelodau cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn uniongyrchol mewn cydweithrediad fel y gall CUPHAT 1) ddatblygu gweithgareddau twristiaeth lleol priodol sy'n cefnogi datblygiad economaidd gwledig, 2) helpu i fynd i'r afael â rhai o yr heriau sy'n wynebu cymunedau ucheldir arfordirol, a 3) sicrhau bod y math o dwristiaeth a hyrwyddir gan y prosiect nid yn unig yn gynaliadwy ond hefyd o fudd gweithredol i'r rhanbarth."

"Rydym yn gwahodd unrhyw un sydd â diddordeb i ddod draw i ddarganfod mwy, i gwrdd â ni a rhannu eu syniadau. Rydym am ddysgu oddi wrth gymunedau lleol am agweddau ar

dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol Mynyddoedd Cambria sydd fwyaf arwyddocaol ac ystyrlon iddynt ac y gellid eu harddangos yn well i gynulleidfa dwristiaid."

I ddarganfod mwy am Brosiect CUPHAT, mae croeso i bawb fynychu'r digwyddiadau wythnos nesaf. Maent yn rhad ac am ddim i fynychu, a bydd te a choffi yn cael eu darparu.



**DIWEDD**

**Gwybodaeth bellach**

Ariennir Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth (CUPHAT) gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru. Bydd y prosiect yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid cymunedol, lleol a chenedlaethol o Gymru ac Iwerddon, gyda Phrifysgol Aberystwyth yn arwain y prosiect, ac yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Prifysgol Dulyn ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed. Nod y prosiect yw arddangos treftadaeth naturiol a diwylliannol pedair ardal ucheldirol arfordirol yn Iwerddon (Mynyddoedd Wicklow a Blackstairs) a Chymru (Mynyddoedd Cambria a Phreseli) i gynyddu mathau cynaliadwy o dwristiaeth ynddynt, gan arwain at greu bywoliaethau, cymunedau ac amgylcheddau mwy cynaliadwy.

https://cuphat.aber.ac.uk/ | cuphat@aber.ac.uk | @CUP_HAT_ | @CoastalUplands